

PRIFFYRDD, CYMRU

2014 RHIF. 10

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR Y TU ALLAN I RIF 1 A RHIFAU 5 – 7 MALLARD CLOSE, TROWBRIDGE, CAERDYDD) 2014

Gwnaed 3 Ebrill 2014

Yn Dod i Rym 10 Ebrill 2014

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir y Tu Allan i Rif 1 a Rhifau 5 – 7 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir y Tu Allan i Rif 1 a Rhifau 5 – 7 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd) 2014” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffyrdd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a

roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 9 Awst 2013 o dan y cyfeirnod 13/01226/DCO ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau'r Briffordd

3. Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd yn Atodlen 1:

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhannau o briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi dechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig i'r datblygwr fod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

4. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynnddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhannau o briffordd, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

3 Ebrill 2014

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac maent yn arferadwy bellach gan

Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan sydd fwy neu lai yn betryal ei siâp o droetffordd, a'i hyd ar y mwyaf yn 7.5 metr a'i lled ar y mwyaf yn 1.6 metr, sydd o flaen Rhif 1 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd.

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, a'i hyd ar y mwyaf yn 23 o fetrau a'i lled ar y mwyaf yn 5 metr, sydd o flaen Rhifau 5 – 7 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Estyn gerddi blaen Rhifau 1, 5, 6 a 7 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd i ddarparu parcio ar y plot.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR Y TU ALLAN I RIF 1 A RHIFAU 5 – 7 MALLARD CLOSE, TROWBRIDGE, CAERDYDD) 2014

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“y Ddeddf”) i awdurdodi cau’r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn i alluogi’r datblygiad yn Atodlen 2 i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir y Tu Allan i Rif 1 a Rhifau 5 – 7 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd) 2014 (“y Gorchymyn”) yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o’r Gorchymyn a’r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd Rheoli Datblygu, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3ND neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA1121270/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau’r Ddeddf; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

wneud cais o fewn 6 wythnos i 10 Ebrill 2014 at y diben hwnnw i’r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth, Cymru/Gorchmynion Cau TCPA, 2014).

Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan sydd fwy neu lai yn betryal ei siâp o droetffordd, a'i hyd ar y mwyaf yn 7.5 metr a'i lled ar y mwyaf yn 1.6 metr, sydd o flaen Rhif 1 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd.

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, a'i hyd ar y mwyaf yn 23 o fetrau a'i lled ar y mwyaf yn 5 metr, sydd o flaen Rhifau 5 – 7 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Estyn gerddi blaen Rhifau 1, 5, 6 a 7 Mallard Close, Trowbridge, Caerdydd i ddarparu parcio ar y plot yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Caerdydd ar 9 Awst 2013 o dan y cyfeirnod 13/01226/DCO.